## Rhagair y Prif Arolygydd

Roedd 2024-2025 yn flwyddyn arwyddocaol i Estyn, wrth i ni gwblhau un o'r cylchoedd arolygu mwyaf heriol ac amharedig yn ein hanes. Roedd hwn yn gylch a ymestynnodd, i lawer, i wyth mlynedd neu fwy. Er bod y cyfnod hwn yn fwriadol ac wedi'u gynnwys yn y dyluniad, tarfodd y pandemig ar ein gweithgareddau cynlluniedig yn ystod y cyfnod hwn. Hoffwn achub ar y cyfle i ddiolch i gydweithwyr am eu gwaith caled wrth gwblhau'r cylch, ond hefyd i'r proffesiwn addysg a hyfforddiant am ei gefnogaeth. Gwelodd y cylch gamau sylweddol hefyd, fel cael gwared ar raddau crynodol ym mwyafrif ein harolygiadau.

Serch hynny, cawsom gyfle eleni i adnewyddu ein hymagwedd ac, ar ôl cynllunio ac ymgynghori'n ofalus, gwnaethom newidiadau sylweddol wrth i ni lansio ein fframweithiau newydd ar draws llawer o'n sectorau, gan ddod o hyd i arbedion effeithlonrwydd trwy symleiddio ein modelau arolygu. Roedd cyflwyno'r Ymweliad Interim mewn ysgolion ac UCDau yn gyflawniad nodedig. Parhaom i arloesi, gan wella ymhellach ein capasiti a'n gallu i gyfathrebu â'r sectorau addysg a'n rhanddeiliaid ehangach trwy ledaenu ein hadroddiad blynyddol a'n canfyddiadau thematig yn well trwy ystod o gyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau.

Rydym wedi elwa ar gefnogaeth gan ystod o sefydliadau partner, gan gynnwys o'r sectorau rydym yn eu gwasanaethu a thrwy arolygiadau ar y cyd parhaus ag ystod o asiantaethau. Rydym wedi cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru, gan gynnig cyngor yn ffurfiol trwy ein gwaith thematig a chefnogaeth ar gyfer blaenoriaethau allweddol, ond hefyd yn anffurfiol wrth iddynt ddatblygu polisi addysg.

Yn fewnol, gwnaethom newidiadau i wella ein perfformiad yn rhan o gynllun hirdymor i ysgogi gwelliant trwy ein gwaith, a gwelsom ein sgôr ymgysylltu â staff yn gwella. Rydym hefyd wedi buddsoddi amser i ymchwilio i fanteision a pheryglon deallusrwydd artiffisial yn fewnol ac yn nghyd-destun addysg a hyfforddiant.



**Owen Evans**

Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a Swyddog Cyfrifyddu

Awdurdodwyd y datganiadau ariannol hyn yn adran 3 yr adroddiad hwn gan y Swyddog Cyfrifyddu i'w cyhoeddi ar 16 Medi 2025.

## Roedd digwyddiadau allweddol yn ystod y flwyddyn yn cynnwys

**Haf 2024**

Parhaom i ddatblygu ein harolygiadau craidd a'n hymweliadau interim i'w cyflwyno'n llawn o fis Medi 2024 ymlaen. Hefyd, cwblhaom ein dogfennau arweiniad a chyhoeddi ein harweiniad Beth a Sut rydym yn arolygu ar-lein.

Parhaom i beilota modelau arolygu ar gyfer arolygu ysgolion wedi'u ffedereiddio.

Dechreuom yr arolygiadau terfynol o'r partneriaethau ar gyfer addysg gychwynnol athrawon.

Cynhaliom ymweliadau ACALl manylach peilot yn y sector Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol.

Goruchwyliom weithrediad strategaeth dysgu a datblygiad proffesiynol tymor hwy ar gyfer sut rydym yn recriwtio, yn hyfforddi ac yn defnyddio arolygwyr allanol.

Lansiom adroddiad thematig newydd ar effaith y rhaglen prentisiaethau iau yng Nghymru, gan dynnu sylw at nifer o ddeilliannau cadarnhaol i ddysgwyr, yn ogystal â nifer o heriau i'r ddarpariaeth bresennol.

Lansiom hefyd adroddiad thematig ar beryglon ymddieithrio ar gyfer pobl ifanc sy'n manteisio ar gymorth gan weithwyr arweiniol adeg pontio i addysg ôl-16, hyfforddiant a chyflogaeth.

Lansiom ein hymgyrch Barod yn Barod ar gyfer sectorau ysgolion ac ôl-16, gyda'r nod o dargedu dealltwriaeth ac ymddygiad darparwyr addysg a hyfforddiant mewn rhai o'r sectorau ôl-16 rydym yn eu harolygu yn ymwneud â llwyth gwaith a disgwyliadau yn ystod ac yn y cyfnod cyn arolygiad.

Lansiom ymgyrch i recriwtio gweithwyr proffesiynol profiadol a chymwysedig ym maes anghenion dysgu ychwanegol ar gyfer rôl newydd arolygydd arbenigol anghenion dysgu ychwanegol.

Cymerom ran yn Eisteddfod yr Urdd ym Meifod, gan rannu stondin â chyrff eraill y llywodraeth i godi proffil Estyn yng Nghymru.

Gweithredom ail garfan ein rhaglen Arweinwyr Lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer gweithwyr proffesiynol addysg yng Nghymru o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

Cymerodd tua chwarter ein staff ran ym *Mighty Hike* Macmillan ym Mhenrhyn Gŵyr.

Lansiom ein gwefan newydd a gwell, gan wella hygyrchedd ein hadroddiadau a'n harolygon ar-lein.

**Hydref**

Dechreuom gylch arolygu 6 blynedd 2024 o arolygiadau craidd ar draws ysgolion a gynhelir ac UCDau, ochr yn ochr â'n hymweliadau interim a ddatblygwyd yn ddiweddar.

Lansiom ein harolygiadau newydd o waith ieuenctid a darpariaeth trochi Cymraeg.

Lansiom ymgyrch i recriwtio Arolygwyr Cymheiriaid yn y sectorau ysgolion arbennig a gynhelir, UCDau, annibynnol a Chymraeg i Oedolion, yn ogystal â'r rhai sy'n gyfrifol am ddosbarthiadau arbenigol awdurdodau lleol mewn ysgolion prif ffrwd.

Lansiom hefyd ein strategaeth rhanddeiliaid newydd ar gyfer y sector uwchradd, gan gyfarfod â phenaethiaid o bob rhan o ogledd Cymru i gasglu adborth a llywio ein gwaith.

Cyhoeddom adroddiadau thematig newydd ar Ddatblygu medrau darllen Cymraeg disgyblion 10-14 oed a Pontio a chynnydd disgyblion.

Rhoesom gefnogaeth i Lywodraeth Cymru wrth iddi gyflwyno rhaglen waith a luniwyd i godi safonau mewn llythrennedd a rhifedd.

Mynychodd arolygwyr Gynhadledd Ryngwladol Sefydlog yr Arolygiaethau (SICI) ar ddeallusrwydd artiffisial a sut mae arolygiaethau'n dechrau ei ddefnyddio i wella eu gwaith, a rhoddwyd cyflwyniad ynddi.

Ar 23 Hydref, lansiom ein Mewnwelediadau Cynnar o Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd 2023-2024 yng Nghampws Tŷ Menai Grŵp Llandrillo Menai ym Mangor.

Yn ddiweddarach yn y tymor, lansiom ddau adroddiad thematig pellach, sef un ar effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol, cymorth, darpariaeth a phontio ar gyfer addysg gynnar; a'r llall ar ba mor dda mae ysgolion, lleoliadau ac awdurdodau lleol yn gweithredu ac yn ymwreiddio agweddau ar Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r cod ADY cysylltiedig.

Lansiom ymgynghoriad ar ein newidiadau arfaethedig i arolygiadau dysgu yn y sector cyfiawnder.

Lansiom arolwg rhanddeiliaid i ddeall amgyffredion o Estyn fel sefydliad ac effaith ein gwaith yn well. Caiff yr arolwg hwn ei gynnal dros gyfnod cychwynnol o dair blynedd i'n galluogi i feincnodi, myfyrio ac ystyried gwelliannau trwy gydol y flwyddyn.

Cynhaliom ymgynghoriad allanol hefyd yn ymwneud â'n polisi adborth a chwynion.

Cyhoeddom ein hadroddiadau cyntaf i bobl ifanc yn gysylltiedig â'n harolygiadau o waith ieuenctid.

**Gwanwyn**

Ar 12 Chwefror, cyhoeddom Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd 2023-2024, a oedd yn cynnwys themâu trawsbynciol ac yn edrych yn ôl ar ganfyddiadau o arolygiadau ac adroddiadau thematig dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf.

Lansiom ein hymgyrch #MwyNagArolygu, gan dynnu sylw at ein hymrwymiad i gefnogi gwelliant addysgol, rhannu arferion effeithiol a sicrhau bod adnoddau gwerthfawr ar gael yn rhwydd i ystod eang o randdeiliaid.

Er mwyn cynorthwyo i ddatblygu ein trefniadau arolygu newydd ar gyfer addysg gychwynnol athrawon, lansiom ymgynghoriad â rhanddeiliaid.

Lansiom adolygiad i ddeall sut mae deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol (Gen AI) yn cael ei ddefnyddio mewn ysgolion ac UCDau ledled Cymru ar hyn o bryd a chyhoeddom lansiad prosiect ar y cyd rhyngom ni, yr Alban a Norwy, gyda Phortiwgal yn ymuno fel arsylwyr, gan ganolbwyntio ar sut mae arolygiaethau'n defnyddio deallusrwydd artiffisial i gefnogi eu gweithgareddau a sut maent yn gwerthuso defnydd darparwyr o ddeallusrwydd artiffisial wrth arolygu.

Cyhoeddom arweiniad atodol newydd i amlinellu ein gwaith yn gwerthuso chweched dosbarth ysgolion a darparu rhai awgrymiadau i helpu arolygwyr ac ysgolion.

Cyhoeddom adroddiad thematig newydd ar gynyddu defnyddo'r Gymraeg yn y sectorau ôl-16.

Lansiom ymgynghoriad ar arolygu darparwyr Addysg Gychwynnol Athrawon.

Cynhaliom ein harolygiad cyntaf â thema ar gyfer y sector Cymraeg i Oedolion.

Sylwer yr arolygwyd nifer fwy o ysgolion yn ystod 2023-2024 oherwydd yr angen i gwblhau'r cylch arolygu blaenorol a mynd i'r afael â'r oedi a achoswyd gan gyfnod clo pandemig COVID-19.

## Trosolwg o arolygu 2024-2025

### Arolygu ar gyfer y Dyfodol – 2024-2030

Yn nhymor yr haf, cyflwynom ein hyfforddiant Arolygu 2024 i'r gymuned arolygwyr. Cynhaliom gyfanswm o 10 o ddigwyddiadau hyfforddiant a mynychodd 798 o gynrychiolwyr hyfforddiant allanol. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant Arolygu 2024 ar gyfer ysgolion ac UCDau, hyfforddiant cychwynnol i arolygwyr cymheiriaid ar gyfer y sectorau ieuenctid, uwchradd a phob oed a hyfforddiant diweddaru tymhorol ar gyfer Arolygwyr Cofrestredig ac Arolygwyr Cofrestredig Meithrin. Ar ben hyn, cynhaliom saith o ddigwyddiadau i randdeiliaid er mwyn sicrhau cyfathrebu dwyffordd ar draws y sectorau rydym yn cydweithio â nhw. Roeddem yn bresennol yn Eisteddfod yr Urdd a rhannom ddiweddariadau am ein trefniadau newydd a'n hadroddiadau thematig cyfredol trwy gydol yr wythnos.

Rydym yn parhau i arloesi ac esblygu wrth i addysg newid. Ym mis Medi 2024, lansiom feysydd arolygu newydd yn y sectorau gwaith ieuenctid ac addysg trochi Cymraeg.

Yna, o dymor yr hydref 2024, lansiom weithgareddau arolygu newydd ar draws nifer o sectorau, gan arwain at ymgysylltu'n fwy rheolaidd; er enghraifft, ymweliadau â thema yn y sector Cymraeg i Oedolion, ymweliadau cyswllt manylach yn y sectorau GALlL ac ôl-16, arolygiadau monitro yn y sector annibynnol, ymweliadau monitro ar gyfer colegau arbenigol annibynnol ac ymweliadau interim (YIau) mewn ysgolion a gynhelir ac UCDau.

Ym mhob sector, mae adnoddau wedi cael eu hadolygu a'u teilwra i anghenion y lleoliad. Lleihawyd maint a/neu hyd arolygiadau, gan greu gallu ychwanegol i ymgysylltu'n fwy rheolaidd, gan ganolbwyntio ar feysydd sy'n sbarduno gwelliant ar gyfer pob lleoliad. Cryfhawyd rolau'r enwebai a'r arolygydd cymheiriaid a chynhaliwyd cyfarfodydd â rhanddeiliaid i gael adborth yn uniongyrchol gan ymarferwyr.

Ymwelodd uwch reolwyr â nifer o arolygiadau hefyd i gasglu adborth byw trwy gydol y broses.

Lansiwyd ein gwefan newydd yn ystod y cyfnod hwn hefyd, gan ei gwneud yn haws i sectorau fanteisio ar arfer effeithiol, yn ogystal â chyflwyno cipluniau byrrach mewn adroddiadau arolygu, sydd â'r nod o gyfeirio darparwyr at arfer ddiddorol.

Yn ogystal â'r gweithgareddau hyfforddi a gynhaliwyd yn nhymor yr haf, parhaom i gyflwyno hyfforddiant ar gyfer ein trefniadau arolygu newydd yn ystod tymor yr hydref 2024. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau adborth parhaus ar ein trefniadau hyd yn hyn.

Wrth i fwy o weithgarwch arolygu gael ei gynnal, rydym yn datblygu ein dulliau cyfathrebu a'n negeseuon allweddol, er enghraifft astudiaethau achos gan ddarparwyr ar ôl ymweliadau interim, diweddariadau i'n tudalennau "Cwestiynau cyffredin" ar ein gwefan ac ymgyrchoedd fel Barod yn Barod a Mwy nag Arolygu.

### Lansio Medr

Sefydlwyd Medr (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) eleni fel corff hyd braich Llywodraeth Cymru, a sefydlwyd gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 i ariannu a rheoleiddio'r sector addysg drydyddol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys:

- addysg bellach
- addysg uwch gan gynnwys ymchwil ac arloesi
- dysgu oedolion yn y gymuned
- dysgu yn y gwaith
- prentisiaethau
- chweched dosbarthiadau mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol

Mae staff o Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Llywodraeth Cymru wedi dod ynghyd â phobl newydd i ffurfio Medr.

Wrth i Medr ddod yn weithredol o 1 Awst, trefnom gyfarfodydd mwy rheolaidd i drafod materion yn ymwneud ag ansawdd yn y sector trydyddol, gan ddrafftio Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Llywodraeth Cymru a Medr i ffurfioli ein perthynas waith. Mae un o'n Cyfarwyddwyr Strategol yn cynrychioli Estyn yn y Pwyllgor Ansawdd bob deufis, lle'r rydym yn cyflwyno gwybodaeth am ansawdd ac yn ymateb i flaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg gan Medr. Bu cynrychiolwyr Medr yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd panel ar gyfer cytuno ar arolygiadau thematig ar gyfer llythyr cylch gwaith Estyn yn 2025-2026.

Rydym wedi ymgysylltu'n agosach â'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth drafft i gefnogi gweithio'n fwy cydweithredol ar draws y sector trydyddol a chefnogi blaenoriaethau strategol drafft Medr.

### Strategaeth y Gymraeg

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi datblygu fersiwn newydd o'n strategaeth y Gymraeg 2021-2024, gan gynnal ymgynghoriad â'r holl staff, trwy holiadur ar-lein a sesiynau galw heibio ar-lein, i ofyn am fewnbwn ar sut gallwn addasu a gwella'r strategaeth o 2025 ymlaen.

Buom hefyd yn datblygu ein harlwy hyfforddiant Cymraeg i staff sy'n dymuno dysgu neu wella eu medrau Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd hyfforddiant preswyl dwys. Mae staff yn cael cyfle i wneud cais am y cyrsiau hyn a chânt eu dewis ar sail meini prawf penodol, gan gynnwys eu hymrwymiad i fynychu cyrsiau dilynol yn y dyfodol. Rydym hefyd

yn bwriadu sefydlu system fentora, gan baru dysgwyr â staff Cymraeg eu hiaith i'w helpu i integreiddio a defnyddio'u medrau iaith yn y gwaith.

Erbyn hyn, mae adrodd ar ddulliau awdurdodau lleol o hybu'r Gymraeg mewn addysg yn ofyniad ym mhob un o'n harolygiadau GALlL. Yn arolygiad o GALlL Casnewydd eleni, cafodd ei gynnwys yn faes ffocws penodol. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) pob awdurdod lleol hefyd yn faes ffocws posibl yn ein hymweliadau ACALl manylach, sy'n ein galluogi i ystyried yn fanwl effaith cynlluniau'r ALl ac i ba raddau y maent yn cyrraedd y targedau a nodir yn eu CSCAau. Mae'r gwaith yn cynnwys ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid allweddol, gan gynnwys pobl ifanc. Rydym wedi ymgysylltu'n rheolaidd â swyddogion Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg mewn addysg, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf a chyngor yn seiliedig ar ganfyddiadau ein harolygiadau a'n gwaith arolygwyr cyswllt. Mae'r cyngor hwn wedi dylanwadu ar benderfyniadau polisi ac wedi llywio blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf yn nodi diben cyffredin i gyflawni ansawdd bywyd gwell a pharhaus i bob un ohonom. Er nad yw'r ddyletswydd yn berthnasol i ni (nid ydym yn gorff cyhoeddus rhestredig ar ddibenion y Ddeddf), rydym yn chwarae ein rhan o ran cyflawni'r weledigaeth hon ar gyfer pobl Cymru o hyd. Ein hamcanion strategol yw ein hamcanion llesiant hefyd ar ddibenion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae ein gweithgarwch atebolrwydd ac arolygu, gan gynnwys ein rhaglen newydd o ymweliadau arolygu a'n dull newydd o arolygu ag ymgysylltiad mwy rheolaidd, fel y disgrifir uchod, i gyd yn cyfrannu at y maes hwn.

Yn yr un modd, trwy leihau timau arolygu a/neu hyd arolygiadau, mae capasiti ychwanegol wedi caniatáu ymgysylltu'n fwy rheolaidd, gan ganolbwyntio ar feysydd sy'n sbarduno gwelliant ar gyfer pob lleoliad.

Mae ein gweithgarwch meithrin gallu wedi cyfrannu'n uniongyrchol trwy ddatblygu:

- gwefan newydd sydd â rhyngwyneb llawer gwell i ddefnyddwyr i rannu negeseuon ac adnoddau â'n rhanddeiliaid
- rhaglen o ddarllediadau "Estyn yn fyw" sy'n canolbwyntio ar adroddiadau thematig i sicrhau y caiff lleisiau darparwyr eu defnyddio i rannu arfer orau â'u cymheiriaid
- trefniadau arolygu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a grwpiau cyfeirio
- adroddiad blynyddol PAEF, sydd â'r nod o sicrhau bod ein gwaith yn hygyrch ac yn gynhwysol
- ein gwaith i gynorthwyo i roi'r Ddeddf ADY ar waith

## Ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion

Yn ystod haf 2024, cwblhawyd y cylch arolygu blaenorol ar gyfer pob ysgol arbennig a gynhelir ac UCD yn llwyddiannus, gydag adolygiad cynhwysfawr o arferion cyfredol a lywiodd strategaethau a dulliau'r dyfodol.

Ar ôl cwblhau'r holl ymgynghoriadau, treialon ac arolygiadau prawf, cafodd y canfyddiadau eu hystyried a'u dadansoddi'n drylwyr i lywio cyflwyniad ein trefniadau newydd. Cafodd y rhain eu dylanwadu'n fawr gan adborth gan ein grŵp cyfeirio penaethiaid a sylwadau o'n gweithgarwch arolygu peilot.

Cadarnhawyd y trefniadau arolygu yn ystod tymor yr haf, gan sicrhau bod y fframwaith diwygiedig yn alinio'n dda ag anghenion y sector ac adborth gan randdeiliaid.

Dechreuodd y cylch arolygu newydd (2024-2030) yn unol â'r cynllun ym mis Medi 2024, gan ddefnyddio'r fframwaith wedi'i ddiweddaru. Roedd hyn yn cynnwys fframwaith arolygu craidd newydd a chyflwyno ymweliadau interim. Yn ystod tymhorau'r hydref a'r gwanwyn, cynhaliom 157 o ymweliadau interim ar wahân ag ysgolion a gynhelir ac UCDau, yn ogystal â'n gwaith arolygu craidd. Cefnogwyd hyn trwy recriwtio ACofau ac arolygwyr cymheiriaid i gynorthwyo i gyflawni ein gwaith.

Mae'r trefniadau newydd wedi cael croeso da, yn gyffredinol, gydag adborth arbennig o gadarnhaol ar ein hymweliadau interim.

Rydym wedi cymryd camau sylweddol i gynorthwyo i roi'r Ddeddf ADY ar waith, gan hyfforddi 20 o arolygwyr ychwanegol ADY newydd am y tro cyntaf o blith cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, ysgolion arbennig a darpariaeth canolfannau arbenigol awdurdodau lleol. Bellach, mae'r arolygwyr hyn yn canolbwyntio ar arolygu canolfannau adnoddau arbenigol mewn ysgolion a gynhelir.

Rydym wedi cydnabod pwysigrwydd darparu hyfforddiant proffesiynol parhaus, gan drefnu hyfforddiant a fydd yn cael ei gyflwyno mewn sesiynau bach, rheolaidd, wedi'u teilwra i sectorau penodol, yn hytrach na mabwysiadu dull eang, lle mae un dull yn addas i bawb. Bydd y mewnwelediad hwn yn llywio ein cynlluniau hyfforddiant ar gyfer ADY yn y dyfodol.

## Ysgolion prif ffrwd ac arbennig annibynnol

Cwblhawyd y cylch arolygu blaenorol ar gyfer pob ysgol brif ffrwd ac arbenigol ADY annibynnol yn llwyddiannus yn ystod haf 2024, gydag adolygiad cynhwysfawr o arferion cyfredol a lywiodd strategaethau a dulliau'r dyfodol.

Ar ôl cwblhau'r holl ymgynghoriadau, treialon ac arolygiadau prawf, cafodd y canfyddiadau eu hystyried a'u dadansoddi'n drylwyr. Cadarnhawyd y trefniadau arolygu

yn ystod tymor yr haf 2024, gan sicrhau bod y fframwaith diwygiedig yn alinio’n dda ag anghenion y sector ac adborth gan randdeiliaid.

Dechreuodd y cylch arolygu newydd yn unol â’r cynllun ym mis Medi 2024, gan ddefnyddio’r fframwaith wedi’i ddiweddaru. Cynhaliwyd yr holl arolygiadau monitro ac arolygiadau craidd a oedd wedi’u trefnu wedi hynny, ynghyd ag ymweliadau cofrestru ac arolygiadau dilynol. Bu adborth o’r gweithgareddau arolygu hyn yn gadarnhaol.

Ar ben hynny, cynhaliom un arolygiad â ffocws â rhybudd eleni ar gais Llywodraeth Cymru.

Rydym yn parhau i gynnal ymweliadau dilynol ag ysgolion nad ydynt yn cydymffurfio, gan sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth a’r arweiniad sydd eu hangen i fodloni’r safonau gofynnol.

### Lleoliadau meithrin nas cynhelir

Y flwyddyn hon, parhaodd y rhaglen bresennol o arolygiadau yn effeithiol, gyda thua 30 o arolygiadau bob tymor.

Yn yr haf, gwnaethom hefyd gomisiynu adolygiad annibynnol o drefniadau gweithio ar y cyd, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2024. Roedd yr adolygiad yn gadarnhaol ac amlygodd nifer o gryfderau mewn arolygiadau ar y cyd, yn ogystal â nodi meysydd i’w gwella. Parhaom i weithio ochr yn ochr â chydweithwyr yn Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i adolygu’r fframwaith a’r gweithdrefnau arolygu, a chyfarfu’r Grŵp Strategol Arolygu ar y Cyd ym mis Chwefror i gynllunio ar gyfer datblygu’r fframwaith newydd ar y cyd. Mae’r ddau sefydliad wedi derbyn yr amserlen, gyda’r bwriad o gyflwyno’r fframwaith newydd ym mis Ionawr 2026 ar ôl arolygiadau peilot a fydd yn cael eu cynnal o fis Medi 2025.

### Gwasanaethau addysg llywodraeth leol

Yn 2024-2025, cynhaliom bedwar arolygiad GALlL. Ymunodd Archwilio Cymru â ni ar bob un o’n harolygiadau. Rydym ar y trywydd iawn o hyd i bob awdurdod lleol gael un arolygiad craidd fesul cylch. Rhoesom drefniadau ar waith hefyd ar gyfer Ymweliadau ACALl Manylach, na fyddant yn cael eu cynnal yn flynyddol, ond ddwywaith yn ystod y cylch ym mhob awdurdod lleol. Gwnaed y newid hwn i alinio’n agosach â lefel yr ymgysylltiad â darparwyr mewn sectorau eraill. Cynhaliwyd dau ymweliad ACALl manylach yn ystod tymor yr haf, ynghyd â dau arall erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

### Y sector gwaith ieuenctid

Yn ystod y flwyddyn, archwiliom ystod y ddarpariaeth ledled Cymru er mwyn datblygu ein dulliau ar gyfer y sector hwn. Cynhaliom arolygiad o waith ieuenctid awdurdod lleol Casnewydd ym mis Hydref a gwaith ieuenctid awdurdod lleol Powys ym mis Ionawr. Darparom hyfforddiant i arolygwyr cymheiriaid hefyd ym mis Rhagfyr, wedi’i dargedu’n benodol at gydweithwyr yn y sector gwirfoddol ac, yn nhymor y gwanwyn, arolygom

## Dysgu yn y sector cyfiawnder

Yn 2024-2025, adolygom ein trefniadau arolygu ar gyfer carchardai dynion, gan ymgynghori'n eang â'r sector, Arolygiaeth Carchardai EF, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF a Llywodraeth Cymru. Ym mis Tachwedd 2024, cyflwynom ein newidiadau arfaethedig i'r fframwaith arolygu ar gyfer carchardai dynion yng Ngrŵp Dysgu, Cyflogadwyedd a Sgiliau Troseddwyr Llywodraeth Cymru a lansio ymgynghoriad ffurfiol ar y newidiadau. Roedd rhanddeiliaid yn gadarnhaol ac yn gefnogol iawn o'r newidiadau a awgrymwyd gennym.

Datblygom ddeunyddiau hyfforddiant cychwynnol i arolygwyr cymheiriaid ar y fframwaith newydd, gan eu gyflwyno i arolygwyr cymheiriaid ym mis Ionawr 2025 a'u peilota ym mis Chwefror 2025.

## Diogelu

Trwy gydol y flwyddyn, rydym wedi parhau i gefnogi ein hymrwymiad i ddiogelu pobl ifanc ac oedolion bregus trwy arferion gwyliadwrus a gwerthuso parhaus. Rydym wedi cryfhau'r prosesau cyfredol, yn enwedig wrth ymdrin â phryderon yn ymwneud â rheoli safleoedd a diogelu. Mae'r newidiadau'n cefnogi ein ffocws ar gamau gweithredu amserol, cyfathrebu tryloyw a chydweithio effeithiol â rhanddeiliaid perthnasol.

Mae ein dull o adrodd ar ddiwylliant diogelu darparwr yn ffocws allweddol trwy gydol ein gweithgareddau arolygu o hyd. Rydym wedi cyflwyno 15 o lythyrau diogelu i ddarparwyr a 21 o lythyrau rheoli safle i awdurdodau lleol.

Mae tîm y Swyddogion Diogelu Arweiniol yn parhau i gynnig cefnogaeth hanfodol yn ystod arolygiadau ac yn ymateb yn brydlon i achosion sy'n cael eu hatgyfeirio gan randdeiliaid amrywiol. Er mis Medi 2024, rhoddwyd gwybod i ni am 140 o bryderon diogelu ac aeth swyddogion diogelu i'r afael â nhw'n brydlon. Lle bo'n briodol, mae aelodau tîm y Swyddogion Diogelu Arweiniol wedi mynychu cyfarfodydd strategaeth proffesiynol a chyfarfodydd uwchgyfeirio pryderon mewn awdurdodau lleol amrywiol.

Rydym wedi diweddaru ein polisi ar gael gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer arolygwyr cofrestredig, arolygwyr ychwanegol, arolygwyr lleyg ac arolygwyr cymheiriaid i gynnwys gofynion allweddol.

## Gweithgarwch dilynol

Parhaom i fonitro'n ffurfiol bob un o'r darparwyr yr oedd angen gweithgarwch dilynol arnynt o ganlyniad i arolygiadau craidd. Mae'r tabl isod yn dangos nifer y darparwyr a roddwyd mewn categorïau gweithgarwch statudol ac a dynnwyd ohonynt yn ystod 2024-2025.

# Amcan Strategol 2:

## Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru a Medr

Ym mis Hydref, cyhoeddom ein hadroddiad blynyddol interim ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru unwaith, a oedd yn cynnwys crynodebau sector ar gyfer y sectorau rydym yn eu harolygu. Eto, roedd y rhain yn cynnwys pwyntiau bwled i amlinellu beth oedd yn mynd yn dda a beth sydd angen ei wella ym mhob sector. Roedd pob crynodeb sector eto'n cynnwys trosolwg o argymhellion o arolygiadau.

Yna, ym mis Chwefror 2025, cyhoeddom Adroddiad Blynyddol PAEF 2023-2024 ar ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Yn ogystal â rhoi diweddariadau ar bob un o'r sectorau rydym yn eu harolygu, roedd hwn yn cynnwys adrannau ar y themâu allweddol canlynol:

- Addysgu a'r cwricwlwm
- Symud tuag at Gymru wrth-hiliol
- Presenoldeb
- Recriwtio a chadw
- Y Gymraeg
- Hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

Wrth lansio'r Adroddiad Blynyddol, nododd y Prif Weithredwr fod llawer i'w ddathlu yn y sector, ond bod problemau parhaus fel cynllunio ar gyfer hunanwella yn faes hollbwysig i addysgwyr ganolbwyntio eu hymdrechion arno o hyd. Roedd yr adroddiad yn pwysleisio mai dim ond lleiafrif o ddarparwyr sy'n dangos arferion cryf sy'n sbarduno gwelliant, tra nad yw eraill yn gwerthuso effaith addysg ar ddysgu yn ddigon manwl.

Yn ogystal â hyn, amlygodd y Prif Weithredwr yr angen am ffocws clir ar fedrau sylfaenol ar draws y cwricwlwm. Mae bylchau amlwg yn y ffordd y mae darparwyr yn cynllunio i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol dysgwyr ar hyn o bryd.

Amlygodd yr adroddiad ymdrechion clodwiw gan ysgolion i ymwreiddio gwrth-hiliaeth yn eu hethos a'u harferion, yn ogystal ag arfer gref o ran hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymreig. Mae problemau hirsefydlog fel absenoldebau dysgwyr a recriwtio athrawon a staff cymorth ar draws nifer o arbenigeddau yn achosi heriau ychwanegol i arweinwyr addysg o hyd.

Dywedodd:

> "Rydym yn dra ymwybodol o'r pwysau a'r heriau y mae darparwyr addysg yn eu hwynebu ar hyn o bryd, ond mae angen gwella hunanwerthuso mewn ysgolion a darparwyr eraill i gryfhau'r system. Mae angen arweinwyr cryf arnom i ysgogi'r gwelliant hwn, gan fod methiant i wneud hynny'n atal cynnydd gormod o ddysgwyr."

Rydym wedi datblygu canllaw briffio cynhwysfawr ar gyfer arolygwyr. Mae'r canllaw hwn yn rhoi cyfarwyddiadau clir a manwl i arolygwyr cofnodol ac AADY ar sut i fynd ati i arolygu darpariaeth DAALl mewn ysgolion ac adrodd arnynt. Cafwyd adborth cadarnhaol gan gydweithwyr ar y canllaw briffio.

### Gwrth-hiliaeth

Wrth gryfhau ein hymagwedd at wrth-hiliaeth trwy ein gwaith arolygu, rydym wedi ymgymryd â chamau strategol amrywiol i gyd-fynd ag amcanion ein Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth a gwella ein hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Cynhaliwyd adolygiad o'n prosesau recriwtio staff i nodi cyfleoedd i gynyddu amrywiaeth y gweithlu. Rydym wedi diwygio a chryfhau ein deunyddiau recriwtio i leihau rhwystrau ac wedi archwilio egwyddorion Gweithredu Cadarnhaol i gefnogi grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol.

Mae ein prosesau recriwtio yn ymgorffori mesurau sydd â'r nod o hybu cyfleoedd teg a mynd i'r afael â'r diffyg modelau rôl mewn swyddi arweinyddiaeth.

Rydym wedi gwella ein rhaglen datblygu arweinwyr i gefnogi darpar arweinwyr addysg o gefndiroedd ethnig nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol. Sicrhaodd yr ail garfan fod y chwe chyfranogwr yn elwa ar gefnogaeth deilwredig, gan gynnwys hyfforddiant uniongyrchol, cymryd rhan mewn gweithgareddau arolygu ac anogaeth sy'n alinio â safonau proffesiynol.

Mae ymdrechion i wella casglu data ar ein gweithlu arolygwyr allanol yn mynd rhagddynt, gan alluogi dealltwriaeth gliriach o grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol. Mae hyn yn cynnwys mynychu hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i wella ein dulliau. Ar ben hynny, rydym wedi ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid cenedlaethol i feithrin cronfa fwy amrywiol o arolygwyr lleyg, gan sicrhau bod ein gweithlu'n adlewyrchu'r cymunedau amrywiol rydym yn eu gwasanaethu.

Adolygwyd deunyddiau a phrosesau recriwtio ar gyfer arolygwyr allanol, gyda gwelliannau nodedig i'n gwefan.

Mae ymgysylltu'n ehangach â rhanddeiliaid a grwpiau eiriolaeth wedi llywio ein gwaith, gan gynnwys arolygiadau targedig yn mynd i'r afael â lles plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac archwilio cynlluniau gweithredu gwrth-hiliaeth colegau addysgu bellach.

Rydym wedi blaenoriaethau hyfforddiant staff i hybu cydraddoldeb a mynd i'r afael â gwahaniaethu, gan arfogi ein gweithlu i feithrin diwylliant gwrth-hiliol. Mae sesiynau hyfforddiant wedi targedu ymddygiad gwahaniaethol a chyflwynwyd rhaglenni anogaeth a mentora i wella medrau ac ymwybyddiaeth staff sy'n ymgysylltu â chymunedau ethnig lleiafrifol. Mae gweithdrefnau ymsefydlu ac asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael

eu hadolygu a’u mireinio i sicrhau cynhwysiant a chydymffurfiaeth â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

Mae prosesau rheoli perfformiad yn cael eu halinio ag amcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth, er bod cynnydd o ran ymwreiddio’r mesurau hyn yn parhau. Mae cyfleoedd ar gyfer mentora gwrthdro ac asesiadau cryfach o’r effaith ar gydraddoldeb hefyd yn cael eu hadolygu, gyda’r bwriad o sicrhau bod yr offerynnau hyn yn cael effaith ystyrlon.

Mae ein harolygiadau’n cynnwys ffocws cynyddol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gan asesu sut mae cwricwla’n datblygu dealltwriaeth dysgwyr o hanesion a safbwyntiau amrywiol. Maent hefyd yn gwerthuso pa mor effeithiol y mae ysgolion yn cofnodi ac yn mynd i’r afael â bwlio, ymddygiad niweidiol a gwahaniaethu. Mae’r meini prawf hyn wedi’u hymwreiddio yn ein fframwaith arolygu diwygiedig, gan bwysleisio pwysigrwydd triniaeth deg, parch a diogelu pob dysgwr. Mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid, rydym wedi hwyluso trafodaethau ar fynd i’r afael â hiliaeth ac ymwreiddio amrywiaeth yn y cwricwlwm.

### Hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

Rydym yn cyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru yn rheolaidd i gynnig adborth o arolygu a gweithgarwch arall. Mae hyn yn cynnwys awgrymiadau ymarferol i gefnogi arweinwyr, gan gynnwys cyflawni’r agweddau hyn mewn cynadleddau ar y cyd â Llywodraeth Cymru ar gyfer penaethiaid ysgolion cynradd ac uwchradd.

### Lliniaru effaith tlodi

Mae lliniaru effeithiau tlodi ar ddysgu a chyrhaeddiad addysgol yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru; felly, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar waith darparwyr i leihau effaith difreintedd. Er enghraifft, rydym wedi adolygu a diweddaru ein harweiniad atodol a’i gyhoeddi ar ein gwefan. Rydym hefyd wedi rhannu ein dulliau o arolygu sut mae darparwyr yn mynd i’r afael â hyn mewn cynhadledd Cymru gyfan o swyddogion y Grant Datblygu Disgyblion (GDD), yn ogystal â digwyddiad bord gron gyda Llywodraeth Cymru wrth drafod cyhoeddiad diweddar ar ddefnydd y GDD gan Brifysgol Bangor. Mae’r AEF arweiniol ar gyfer y pwnc hwn yn cymryd rhan yng ngwaith gwrthdlodi STESSIE/SICI i rannu arfer orau o’n hysgolion yng Nghymru.

Dros wanwyn 2025, buom yn datblygu strategaeth sefydliad cyfan ar gyfer gwaith i liniaru effaith tlodi, gan ei rannu ar draws uwch reolwyr ar gyfer datblygu a chraffu pellach. Rydym hefyd wedi parhau i fyfyrio ar sut gall arolygu ategu ein hymgyrch i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles.

Gwnaeth archwiliad ymgynghorol gan TIAA ym mis Mawrth 2025 ar roi Intacct ar waith, a'i weithredu,  nifer o argymhellion, yr oeddem eisoes wedi nodi llawer ohonynt. Ers hynny, mae'r holl argymhellion hyn wedi'u rhoi ar waith.


Rydym hefyd wedi achub ar y cyfle i adolygu ein cofrestr asedau sefydlog ac wedi dad-gydnabod nifer sylweddol o eitemau a oedd wedi'u dibrisio'n llawn a oedd wedi mynd heibio eu hoes ddefnyddiol. Caiff hyn ei ddangos yn nodyn 5 i'r cyfrifon.

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, rwyf wedi fy sicrhau gan y prosesau sydd ar waith a'r ymgysylltiad a'r ymrwymiad i'n gwerthoedd a chod y gwasanaeth sifil a ddangoswyd gan gydweithwyr.



**Owen Evans**
Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a'r
Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 16 Medi 2025


Nifer gyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn, yn ôl rhywedd, 2024 - 2025
Gradd
Staff dros dro
AO
EO
HEO
SEO
Gradd 7
Secondeion
Gradd 6
Gradd 6 Rheoli
Uwch Wasanaeth Sifil
2.11
0.00
3.83
8.36
0.00
4.00
16.18
0.83
4.70
8.00
0.00
1.83
4.83
0.00
0.00
2.93
0.00
1.00
2.14
0.00
1.99
31.77
0.00
36.51
3.83
0.00
4.33
2.00
0.00
1.00
0.00
5.00
10.00
15.00
20.00
25.00
30.00
35.00
40.00
Rhywedd staff
Benywaidd
Arall
Gwrywaidd

**Perthynas tâl**

| | 2024-2025 £000oedd Prif Arolygydd | 2024-2025 £000oedd Cyflogai | 2024-2025 £000oedd Cymhareb | 2023-2024 £000oedd Prif Arolygydd | 2023-2024 £000oedd Cyflogai | 2023-2024 £000oedd Cymhareb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm tâl a buddion** | | | | | | |
| Cymhareb cyflog 25ain canradd | 158 | 34 | 4.65 | 153 | 32 | 4.78 |
| Tâl canolrifol | 158 | 87 | 1.82 | 153 | 77 | 1.99 |
| Cymhareb cyflog 75ain canradd | 158 | 87 | 1.82 | 153 | 82 | 1.86 |
| **Elfen gyflog y cyfanswm tâl** | | | | | | |
| Cymhareb cyflog 25ain canradd | 158 | 34 | | 153 | 32 | |
| Tâl canolrifol | 158 | 87 | | 153 | 77 | |
| Cymhareb cyflog 75ain canradd | 158 | 87 | | 153 | 82 | |

| **Newidiadau canrannol** | **2023-2024 i 2024-2025** | **2022-2023 i 2023-2024** |
|---|---|---|
| **% Newid o'r flwyddyn ariannol flaenorol o ran y Prif Arolygydd** | | |
| Cyflog a lwfansau | 3.27% | 7.02% |
| Tâl perfformiad a bonysau | 0.00% | 0.00% |
| **Newid % cyfartalog o'r flwyddyn ariannol flaenorol o ran cyflogeion yn eu cyfanrwydd** | | |
| Cyflog a lwfansau | 0.51% | 1.79% |

## 4 Incwm Amrywiol 2024-2025

| | 2024-2025 £000oedd | 2023-2024 £000oedd |
|---|---|---|
| **Incwm:** | | |
| Ffioedd cofrestru | (7) | (2) |
| Amrywiol | - | (4) |
| **Cyfanswm yr Incwm** | **(7)** | **(6)** |

## 5a Asedau Diriaethol Sefydlog

| | Offer TG £000oedd | Dodrefn a Gosodiadau £000oedd | Offer swyddfa £000oedd | Ased hawl i ddefnyddio £000 | Cyfanswm £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | **1,029** | **191** | **3** | **347** | **1,570** |
| Ychwanegiadau | 31 | - | 5 | - | 36 |
| Gwarediadau | (33) | - | - | - | (33) |
| Dadgydnabuwyd | (572) | (123) | (3) | - | (698) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **455** | **68** | **5** | **347** | **875** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | **801** | **132** | **3** | **156** | **1,092** |
| Codwyd yn y flwyddyn | 101 | 12 | 1 | 69 | 183 |
| Gwarediadau | (33) | - | - | - | (33) |
| Dadgydnabuwyd | (572) | (123) | (3) | - | (698) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **297** | **21** | **1** | **225** | **544** |
| **Gwerth net ar y llyfrau** | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **158** | **47** | **4** | **122** | **331** |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | 228 | 59 | - | 191 | 478 |
| **Cyllid Asedau:** | | | | | |
| **Dan berchenogaeth** | 158 | 47 | 4 | - | 209 |
| **Dan brydles** | - | - | - | 122 | 122 |

